CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Bwrdd Llywodraeth Cymru: 28 Ionawr 2022

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Chwefror 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Chwefror 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Agenda

Yn bresennol

Croeso

Cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu

Diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol

Canlyniadau'r Arolwg Pobl

Diweddariad ar gyllid

Unrhyw fater arall

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Agenda

## 1. Croeso / Materion cyfredol

### Rhif y papur

Llafar

### Sylwadau

Gweler y cofnodion

## 2. Rhaglen Lywodraethu

### Rhif y papur

Papur(21)56 & 57

### Sylwadau

Wedi'i gyhoeddi.

Nid yw'r papurau wedi'i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am lunio neu ddatblygu polisi'r llywodraeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 3. Diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol

### Rhif y papur

Papur(21)58 & 59

### Sylwadau

Gweler y cofnodion

## 4. Canlyniadau'r Arolwg Pobl

### Rhif y papur

Papur(21)60 & 61

### Sylwadau

Nid yw’r papurau wedi’i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am lunio neu ddatblygu polisi’r llywodraeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 5. Diweddariad ar Gyllid

### Rhif y papur

Papur(21)62

### Sylwadau

Nid yw’r papur wedi’i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â rheoli perfformiad mewnol.

## 6. Unrhyw fusnes arall

### Rhif y papur

Llafar

### Sylwadau

Gweler y cofnodion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Papurau i’w nodi

## Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### Rhif y papur

Papurau i’w nodi(21)63

### Sylwadau

Wedi’i gyhoeddi.

## Dangosfyrddau’r gweithlu

### Rhif y papur

Papurau i’w nodi(21)64

### Sylwadau

Nid yw’r papur wedi’i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â rheoli perfformiad mewnol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cofnodion Bwrdd Cysgodol Drafft

### Rhif y papur

Papurau i'w nodi(21)65

### Sylwadau

Nid yw'r papur wedi'i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â rheoli perfformiad mewnol.

## Yn bresennol

- Andrew Goodall
- Meena Upadhyaya
- Gareth Lynn
- Ellen Donovan
- Andrew Slade
- Tracey Burke
- Des Clifford
- Reg Kilpatrick
- Judith Paget
- David Richards
- Andrew Jeffreys
- Peter Kennedy
- Natalie Pearson
- Gawain Evans
- Helen Lentle

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Bekah Cioffi
- Zakhyia Begum

## Yn mynychu

- Catrin Sully
- Owain Lloyd
- Angharad Reakes
- Amy Jones

## Ysgrifenyddiaeth

- Charmain Watts

# 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a chroesawodd gyd-gadeiryddion y Bwrdd Cysgodol, Bekah Cioffi a Zakhyia Begum. Cyflwynodd Zakhyia ei hun gan mai dyma'r tro cyntaf iddi fynychu cyfarfod o'r Bwrdd, a dywedodd air am ei chefndir. Croesawyd Zakhyia hefyd gan aelodau'r Bwrdd.

1.2 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i aelodau'r bwrdd a oeddent yn fodlon ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. Roedd angen i unrhyw sylwadau a/neu ddiweddariadau gael eu rhoi i'r ysgrifenyddiaeth cyn iddynt gael eu cyhoeddi yr wythnos nesaf.

1.3 Rhoddodd Judith Paget ddiweddariad am y datblygiadau diweddaraf o ran Covid-19, gan ganolbwyntio ar niferoedd achosion Covid-19 yng Nghymru, y sefyllfa  mewn ysbytai, gofal dwys a'r rhaglenni brechu ac atgyfnerthu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

1.4 Rhoddodd Reg Kilpatrick ddiweddariad am y cynlluniau adfer diweddaraf ac esboniodd y byddai’r Prif Weinidog yn cyhoeddi'r camau nesaf yn fuan o ran rheoliadau a lefelau rhybudd. Esboniodd ymhellach fod gwaith yn mynd rhagddo ar gynllun i bontio’r sefydliad i gyflwr endemig a rhoi'r ffocws gweithredol yn ôl ar fusnes fel arfer.

### Cam gweithredu 1

Trafodaeth bellach ar y cynllun pontio i'w chynnal mewn Bwrdd yn y dyfodol.

1.5 Gofynodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol:

- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i estyn allan at y gwledydd hynny lle mae llai o frechlynnau ar gael? Dywedodd Judith Paget fod Llywodraeth Cymru wedi’i chysylltu â’r ymateb ledled y DU i'r farchnad frechu fyd-eang.
- Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y prosesau da sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y pandemig yn parhau? Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y sefydliad wedi gweithio'n wahanol yn ystod y pandemig ac y bydd gwaith manwl ar y gwersi a ddysgwyd yn parhau i gael ei ddatblygu.

## 2. Cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu

2.1 Cyflwynodd Catrin Sully bapur, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar y Rhaglen Lywodraethu. Esboniodd Catrin fod y Cabinet wedi cyfarfod ym mis Ionawr i drafod y diweddariad ac esboniodd sut y byddai'r wybodaeth mewn adroddiadau yn y dyfodol yn cael ei defnyddio i roi sicrwydd i'r Cabinet.

2.2 Dywedodd Catrin fod Is-bwyllgor Cabinet y Rhaglen Lywodraethu, sy'n rhoi trosolwg strategol ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, wedi cyfarfod ym mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ionawr a'i fod wedi cael ymateb cadarnhaol.

2.3 Nododd y Bwrdd adborth y Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd yn cyfeirio at adnoddau o fewn y sefydliad a blaenoriaethu gwaith, yn croesawu'r newidiadau i BIRT ond yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth gyson.

### Cam gweithredu 2

Argymhellodd yr Ysgrifennydd Parhaol drafodaeth bellach mewn cyfarfod yn y dyfodol ynghylch ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n cyfeirio at adnoddau.

### Cam gweithredu 3

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddiwygio'r dreth gyngor ac awgrymodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cyfarfod â Reg Kilpatrick i drafod y cynllun.

2.4 Rhoddodd Bekah Cioffi adborth o'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd Cysgodol a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio iaith briodol a phwysigrwydd Model Cymdeithasol o Anabledd.

## 3. Ystyried diwygio’r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol

### Y flwyddyn ysgol

3.1 Rhoddodd Owain Lloyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i ystyried diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol ac esboniodd fod y Prif Weinidog wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gofyn i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ymgysylltu â nifer o brif ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu gan gynnwys diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol.

3.2 Dywedodd Owain fod ymchwil fanwl, proses o gasglu tystiolaeth, gwaith grwpiau ffocws ac adolygiad o lenyddiaeth yn cael ei ddatblygu. Dywedodd hefyd y bydd y cyfnod rhwng nawr a'r ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei ddefnyddio i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr, diwydiannau penodol fel y sector twristiaeth, yn ogystal â phlant a phobl ifanc.

3.3 Rhoddodd Owain drosolwg i'r Bwrdd o fodelau posibl. Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd yn fwriad newid nifer statudol diwrnodau athrawon (telerau ac amodau), ond yn hytrach ystyried dosbarthiad blynyddol gwahanol.

## Y diwrnod ysgol

3.4 Esboniodd Owain y bydd y datblygiad polisi hwn yn ceisio creu lle yn y diwrnod ysgol ac o'i amgylch, drwy sesiynau ychwanegol sy'n darparu gweithgareddau, profiadau a chyfleoedd eang. Gan ganolbwyntio'n bennaf ar lesiant ac ailymgysylltu, y bwriad yw creu amgylchedd gwell ar gyfer dysgu.

3.5 Dywedodd Owain y bydd hyd at 14 o ysgolion yn cymryd rhan mewn treial cenedlaethol, gan ddarparu oriau ychwanegol i ddysgwyr mewn rhaglen 10 wythnos yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae'r ysgolion hyn wedi gwirfoddoli i gymryd rhan, gan gefnogi dysgwyr difreintiedig, gwella mynediad at gyfalaf cymdeithasol a diwylliannol a helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig Covid-19 ar ddysgu.

3.6 Diolchodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol i Owain am ei ddiweddariad gan dynnu sylw at bwysigrwydd:

- gwrando ar ddysgwyr a rhieni
- dull cyson o ymdrin â'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y treial cenedlaethol yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ogystal â chael ysgolion ag amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol
- gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y modelau'n cydweddu â byrddau arholi

### Cam gweithredu 4

Cynigiodd yr Ysgrifennydd Parhaol y dylai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ymgysylltu drwy fecanweithiau sydd eisoes ar waith yn y maes gwaith hwn a dychwelyd y mater i'r Bwrdd ymhen 6/9 mis.

3.7 Rhoddodd Bekah Cioffi adborth o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y Bwrdd Cysgodol a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Roedd yr opsiynau ar gyfer y flwyddyn ysgol yn awgrymu gwyliau gaeaf hirach, sy’n cyd-daro â'r Nadolig, a meddyliwyd tybed a ellid cysoni gwyliau eraill â gwyliau crefyddol mawr.
- Mae’n bwysig cofio bod bod pobl ifanc yn cael pyliau o afiechydon yn y gaeaf sy'n effeithio ar eu perfformiad; bod arholiadau hollbwysig yr haf yn digwydd yn ystod brig tymor clefyd y gwair; y gallai fod angen llawer o gefnogaeth ar unigolion niwrowahanol yn y broses newid hon; ac y gallai fod angen llawdriniaethau ar blant o oedran ysgol yn ystod y gwyliau, sy’n golygu bod iddynt gael cyfnod digon hir i ffwrdd er mwyn osgoi colli'r ysgol.

3.8 Diolchodd Owain i Bekah am yr adborth ac roedd yn teimlo y byddai angen adolygu’r cwestiynau a godwyd ymhellach a'u bwydo'n ôl i'r tîm.

## 4. Canlyniadau'r Arolwg Pobl

4.1 Rhoddodd Natalie Pearson ac Angharad Reakes drosolwg i'r Bwrdd o Ganlyniadau'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4.2 Cyflwynodd Angharad sleidiau a oedd yn canolbwyntio ar:

- Y gyfradd ymateb
- Unrhyw ostyngiad mewn perfformiad ers y flwyddyn flaenorol
- Sgôr ymgysylltu cyffredinol ein staff
- Cymhariaeth rhwng sgoriau craidd a sgoriau lleol Llywodraeth Cymru
- Gwelliannau mewn sgoriau cadarnhaol
- Cymhariaeth â'r Gwasanaeth Sifil
- Perfformiad meincnod

4.3 Tynnodd Natalie sylw'r Bwrdd at bwysigrwydd y canfyddiadau ynghylch ymgysylltu â gweithwyr. Mae'r mynegai ymgysylltu yn mesur ymlyniad staff wrth waith, balchder o'r sefydliad a chymhelliant i wneud eu gorau i gyflawni amcanion.

4.4 Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd y gwersi a ddysgwyd o'r canlyniadau a'r pandemig. Cydnabu'r bwrdd fod meithrin galluedd yn bwysig iawn i'r sefydliad.

4.5 Diolchodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol i Natalie ac Angharad am eu diweddariad gan gytuno bod deall pa waith sydd ei angen ar gyfer meysydd i'w gwella yn bwysig.

4.6 Rhoddodd Bekah Cioffi adborth a thynnodd sylw at 3 thema lle gellid ystyried gweithredu corfforaethol i fynd i'r afael â chanlyniadau'r arolwg staff:

- Amgylchedd gwaith
- Rheoli perfformiad
- Dysgu a datblygu

# 5. Diweddariad ar gyllid

5.1 Rhoddodd Gawain Evans ddiweddariad i'r Bwrdd ar gyllid a'r statws

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

presennol.

5.2 Adroddodd Gawain ar ragolygon alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 a sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar 30 Tachwedd 2021 (mis 8) a oedd yn canolbwyntio ar:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn

5.3 Rhoddodd Bekah Cioffi adborth ar farn y Bwrdd Cysgodol, a oedd yn canolbwyntio ar y rhaniad ariannu rhwng Cyfarwyddiaethau.

# 6. Unrhyw fater arall

6.1 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r aelodau ac yn arbennig i Bekah Cioffi am ei hadborth gan y Bwrdd Cysgodol.

6.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Bwrdd y byddai'n cwrdd â Chyd-Gadeiryddion y Bwrdd Cysgodol i drafod eu pwyntiau o dan unrhyw fater arall.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-28-ionawr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.